WALES AUDIT OFFICE
SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU

Archwilydd Cyffredinol Cymru
Auditor General for Wales

# Trosolwg a Chraffu – Addas i'r Dyfodol? – **Cyngor Sir Ceredigion**

Blwyddyn archwilio: 2017-18

Dyddiad cyhoeddi: Medi 2018

Cyfeirnod y ddogfen: 810A2018-19

Mae'r ddogfen hon wedi'i pharatoi at ddefnydd mewnol Cyngor Sir Ceredigion fel rhan o'r gwaith a gyflawnir yn unol â swyddogaethau statudol.

Nid oes unrhyw gyfrifoldeb ar yr Archwilydd Cyffredinol, staff Swyddfa Archwilio Cymru neu, lle y bo'n gymwys, yr archwilydd penodedig mewn perthynas ag unrhyw aelod, cyfarwyddwr, swyddog na chyflogai arall yn unigol, nac i unrhyw drydydd parti.

Os gwneir cais am wybodaeth y gallai'r ddogfen hon fod yn berthnasol iddi, tynnir sylw at y Cod Ymarfer a gyhoeddwyd o dan adran 45 o Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000.
Mae Cod adran 45 yn nodi'r arfer a ddisgwylir gan awdurdodau cyhoeddus wrth ymdrin â cheisiadau, yn cynnwys ymgynghori â thrydydd partïon perthnasol. Mewn perthynas â'r ddogfen hon, mae Archwilydd Cyffredinol Cymru, Swyddfa Archwilio Cymru a, lle y bo'n gymwys, yr archwilydd penodedig yn drydydd parti perthnasol. Dylid anfon unrhyw ymholiadau ynglŷn â datgelu neu ailddefnyddio'r ddogfen hon i Swyddfa Archwilio Cymru yn swyddog.gwybodaeth@archwilio.cymru.

Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg. Ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi. We welcome correspondence and telephone calls in Welsh and English. Corresponding in Welsh will not lead to delay.

Mae’r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg. This document is also available in English.

Roedd y tîm a gyflawnodd y gwaith yn cynnwys Jeremy Evans a Nigel Griffiths, dan gyfarwyddyd Huw Rees.

# Cynnwys

Mae'r Cyngor yn cydnabod ac yn gwerthfawrogi pwysigrwydd y swyddogaeth trosolwg a chraffu wrth graffu ar brosesau gwneud penderfyniadau, ond gellid gwneud mwy i ymestyn yr ystod o ddulliau craffu a ddefnyddir a gwerthuso ei heffaith

Adroddiad cryno

Cynigion ar gyfer gwella 5

Mae'r Cyngor yn cydnabod ac yn gwerthfawrogi pwysigrwydd y swyddogaeth trosolwg a chraffu wrth graffu ar brosesau gwneud penderfyniadau, ond gellid gwneud mwy i ymestyn yr ystod o ddulliau craffu a ddefnyddir a gwerthuso ei heffaith 6

Mae'r swyddogaeth trosolwg a chraffu yn cyfrannu'n dda at y gwaith o graffu ar brosesau gwneud penderfyniadau ac mae'r Cyngor yn cydnabod ac yn gwerthfawrogi ei phwysigrwydd 6

Mae blaenraglenni gwaith pwyllgorau craffu yn cynnwys materion priodol, gellid gwneud mwy i ymestyn yr ystod o ddulliau craffu a ddefnyddir ymhellach a sicrhau ei fod yn adolygu'r cynnydd sydd wedi'i wneud yn erbyn adroddiadau archwilio ac adroddiadau eraill gan gyrff rheoleiddio ac arolygu 9

Nid yw'r Cyngor wedi adolygu effeithiolrwydd ei swyddogaeth trosolwg a chraffu yn rheolaidd. Fodd bynnag, mae adolygiad bellach yn mynd rhagddo a fydd yn galluogi'r Cyngor i werthuso effaith gweithgarwch craffu a nodi lle y gallai wella 10

Atodiadau

Atodiad 1 – canlyniadau a nodweddion prosesau trosolwg a chraffu effeithiol ar gyfer llywodraeth leol 12

Atodiad 2 – argymhellion o adroddiad astudiaeth wella genedlaethol yr Archwilydd Cyffredinol 'Craffu Da? Cwestiwn Da! (Mai 2014) 14

# Adroddiad cryno

## Crynodeb

1 Ar y cyd â phob un o'r 22 o gynghorau yng Nghymru, gwnaeth yr adolygiad hwn archwilio pa mor ‘addas i'r dyfodol’ yw eu swyddogaethau craffu. Ystyriwyd sut mae cynghorau yn ymateb i heriau cyfredol i'w gweithgarwch craffu. Mae'r rhain yn cynnwys Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 a'r ffordd y mae cynghorau yn dechrau craffu ar Fyrddau Gwasanaethau Cyhoeddus (BGCau). Gwnaethom hefyd archwilio p'un a yw cynghorau mewn sefyllfa dda i ymateb i heriau yn y dyfodol megis pwysau parhaus ar gyllid cyhoeddus a'r cam posibl tuag at drefniadau gweithio mwy rhanbarthol rhwng awdurdodau lleol.

2 Fel rhan o'r adolygiad hwn, gwnaethom hefyd adolygu'r cynnydd a wnaed gan gynghorau o ran mynd i'r afael ag argymhellion ein Hastudiaeth Wella Genedlaethol flaenorol **Craffu Da? Cwestiwn Da!** (Mai 2014) (gweler Atodiad 2). Gwnaethom hefyd gymryd camau dilynol mewn perthynas â chynigion perthnasol ar gyfer gwella a gyhoeddwyd mewn adroddiadau lleol yn cynnwys y rhai yn ein hadolygiadau yn 2016-17 o Gynllunio Arbedion a Threfniadau Llywodraethu ar gyfer Penderfynu ar Newidiadau Sylweddol i Wasanaethau.

3 Nod ein hadolygiad oedd:

- nodi dulliau gweithredu ar gyfer ymgorffori'r egwyddor datblygu cynaliadwy mewn prosesau ac arferion craffu er mwyn llywio trefniadau rhannu ymarfer a gwaith yr Archwilydd Cyffredinol yn y dyfodol mewn perthynas â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015;
- rhoi sicrwydd bod swyddogaethau craffu mewn sefyllfa dda i ymateb i heriau a disgwyliadau nawr ac yn y dyfodol;
- helpu i ymgorffori prosesau craffu effeithiol gan aelodau etholedig o ddechrau'r cylch etholiadol newydd; a
- rhoi trosolwg o ba mor dda y mae cynghorau wedi ymateb i ganfyddiadau ein Hastudiaeth Wella Genedlaethol flaenorol.

4 Er mwyn llywio ein canfyddiadau, gwnaethom seilio ein dull adolygu ar Ganlyniadau a Nodweddion Trefniadau Trosolwg a Chraffu Effeithiol i Lywodraeth Leol a ddatblygwyd gennym ac y cytunwyd arnynt gan randdeiliaid craffu yng Nghymru yn dilyn ein Hastudiaeth Wella Genedlaethol flaenorol **Craffu Da? Cwestiwn Da!**

5 Cynhaliwyd ein gwaith maes rhwng mis Tachwedd 2017 a mis Ionawr 2018. Gwnaethom adolygu dogfennau, cyfweld â swyddogion a chynnal grwpiau ffocws gyda chynghorwyr. Gwnaethom hyn er mwyn deall eu safbwyntiau ar drefniadau craffu cyfredol Cyngor Sir Ceredigion (y Cyngor) ac, yn benodol, sut mae'r Cyngor yn mynd i'r afael â'r heriau a nodwyd uchod ac yn bwriadu ymateb iddynt. Gwnaethom arsylwi sampl o gyfarfodydd craffu ac adolygu dogfennaeth, gan gynnwys adroddiadau a chyflwyniadau, a roddwyd i gynghorwyr er mwyn cefnogi eu rôl graffu.

6 Daethom i'r casgliad bod y **Cyngor yn cydnabod ac yn gwerthfawrogi pwysigrwydd y swyddogaeth trosolwg a chraffu wrth graffu ar brosesau gwneud penderfyniadau, ond y gellid gwneud mwy i ymestyn yr ystod o ddulliau craffu a ddefnyddir a gwerthuso ei heffaith**. Daethom i'r casgliad hwn am y rhesymau canlynol:

- mae'r swyddogaeth trosolwg a chraffu yn cyfrannu'n dda at waith i graffu ar brosesau gwneud penderfyniadau ac mae'r Cyngor yn cydnabod ac yn gwerthfawrogi ei phwysigrwydd;
- mae blaenraglenni gwaith pwyllgorau craffu yn cynnwys materion priodol: gellid gwneud mwy i ymestyn yr ystod o ddulliau craffu a ddefnyddir ymhellach a sicrhau ei fod yn adolygu'r cynnydd sydd wedi'i wneud yn erbyn adroddiadau archwilio ac adroddiadau eraill gan gyrff rheoleiddio ac arolygu; ac
- nid yw'r Cyngor wedi adolygu effeithiolrwydd ei swyddogaeth trosolwg a chraffu yn rheolaidd. Fodd bynnag, mae adolygiad bellach yn mynd rhagddo a fydd yn galluogi'r Cyngor i werthuso effaith gweithgarwch craffu a nodi lle y gallai wella.

# Cynigion ar gyfer gwella

7 Mae'r tabl isod yn cynnig ffyrdd y gallai'r Cyngor wella effeithiolrwydd ei swyddogaeth trosolwg a chraffu er mwyn sicrhau ei fod mewn gwell sefyllfa i ateb heriau nawr ac yn y dyfodol.

Arddangosyn 1: cynigion ar gyfer gwella

| Cynigion ar gyfer gwella | |
|---|---|
| C1 | Sicrhau y caiff adroddiadau ar y cynnydd sydd wedi'i wneud i fynd i'r afael ag argymhellion y gwasanaeth archwilio mewnol ac argymhellion cyrff rheoleiddio, arolygu ac archwilio allanonol eu hystyried i'w cynnwys mewn blaenraglenni gwaith trosolwg a chraffu. |
| C2 | Datblygu prosesau blaenraglennu craffu ymhellach er mwyn:<br>• darparu rhesymeg glir dros ddewis pynciau;<br>• canolbwyntio'n fwy ar ganlyniadau; a<br>• sicrhau y defnyddir y dull craffu mwyaf addas ar gyfer y maes pwnc a'r canlyniad dymunol. |
| C3 | Dylai'r Cyngor adolygu'r math o gymorth craffu sydd ei angen i alluogi'r swyddogaeth graffu i ymateb i heriau yn y dyfodol. |

# Adroddiad manwl

## Mae'r Cyngor yn cydnabod ac yn gwerthfawrogi pwysigrwydd y swyddogaeth trosolwg a chraffu wrth graffu ar brosesau gwneud penderfyniadau, ond gellid gwneud mwy i ymestyn yr ystod o ddulliau craffu a ddefnyddir a gwerthuso ei heffaith

### Mae'r swyddogaeth trosolwg a chraffu yn cyfrannu'n dda at waith i graffu ar brosesau gwneud penderfyniadau ac mae'r Cyngor yn cydnabod ac yn gwerthfawrogi ei phwysigrwydd

9 Mae pum Pwyllgor Trosolwg a Chraffu yn gweithredu o fewn y Cyngor: Cydgysylltu, Adnoddau Corfforaethol, Cymunedau Iachach, Cymunedau sy'n Dysgu a Chymunedau sy'n Ffynnu. Roedd pob un o'r swyddogion a'r cynghorwyr y gwnaethom siarad â nhw yn ystod ein hadolygiad yn gadarnhaol ynghylch y ffordd y mae prosesau craffu yn gweithredu yn y Cyngor. Maent yn credu bod prosesau craffu yn agored, yn dryloyw ac yn effeithiol wrth gefnogi agendâu trawsnewid a gwella'r Cyngor.

10 Mae llawer o farn gadarnhaol swyddogion a chynghorwyr yn seiliedig ar y ffaith eu bod yn fodlon ar elfen cyn gwneud penderfyniad y model craffu a weithredir gan y Cyngor. Mae aelodau'r Pwyllgorau Trosolwg a Chraffu, yn benodol, yn hyderus bod gweithgarwch craffu cyn gwneud penderfyniad yn eu galluogi i chwarae rôl bwysig ac ystyrlon ym musnes y Cyngor. Mae'n rhoi cyfle iddynt adolygu a herio materion o bwys a gwneud argymhellion mewn perthynas â nhw cyn i'r Cabinet wneud penderfyniadau yn eu cylch.

11 Mae pob un o'r swyddogion a'r cynghorwyr y gwnaethom siarad â nhw o'r farn bod gweithgarwch craffu cyn gwneud penderfyniad yn arwain at brosesau gwneud penderfyniadau cynhwysol o ansawdd da sy'n seiliedig ar wybodaeth. Mae ein harsylwadau yng nghyfarfodydd y Pwyllgorau Trosolwg a Chraffu ac mewn cyfweliadau a gweithdai gyda swyddogion a chynghorwyr yn ategu'r farn hon.

12 Mae ein hadolygiad o agendâu, adroddiadau a chofnodion cyfarfodydd y Cabinet a'r Pwyllgorau Trosolwg a Chraffu a oedd yn ymwneud â sampl o benderfyniadau proffil uchel a wnaed yn ddiweddar gan y Cyngor yn ategu barn gadarnhaol swyddogion a chynghorwyr ynglŷn ag effeithiolrwydd gweithgarwch craffu. Er enghraifft, roedd adroddiadau i'r Pwyllgorau Trosolwg a Chraffu ar newidiadau arfaethedig i ofal preswyl pobl hŷn a thaliadau meysydd parcio, yn cynnwys ystod dda o wybodaeth. Roedd hyn yn golygu y gallai cynghorwyr gynnal trafodaeth yn seiliedig ar wybodaeth cyn gwneud argymhellion i'r Cabinet. Yn y ddau achos hyn gwnaeth y Cyngor ategu'r broses gwneud penderfyniad â gwybodaeth a gasglwyd

drwy ymgynghori â'r cyhoedd. Mewn perthynas â'r cartref gofal preswyl, cafwyd 265 o ymatebion i'r ymgynghoriad, naill ai'n uniongyrchol neu drwy'r cyfarfodydd cyhoeddus a gynhaliwyd. Mae'r Cyngor yn annog y cyhoedd i gymryd rhan mewn amrywiaeth o weithgareddau craffu, gan gynnwys pwyllgorau. Mae'r cyhoedd wedi gofyn nifer o gwestiynau yn lleoliad y pwyllgor. Roeddent yn ymwneud â newidiadau i gartrefi preswyl, modelau ariannu gwaith adeiladu ysgolion a chynnydd mewn ffioedd harbwr. Y tu allan i'r pwyllgorau, cynhaliodd aelodau'r pwyllgorau craffu arolwg o ddefnyddwyr meysydd parcio'r cyngor wrth iddynt dalu am eu tocynnau. Gwnaethant hefyd ymgysylltu â'r rhai a oedd yn byw mewn cymunedau lle y bu llifogydd er mwyn cael gwybod sut y gallai'r Cyngor fod wedi'u cefnogi'n well yn eu hargyfwng. Yn y dyfodol, mae'r Cyngor yn bwriadu defnyddio'r cyfryngau cymdeithasol yn fwy, gan adeiladu ar ei brofiad gyda hyn yn 2016.

13 Mae aelodau'r Cabinet yn mynd i gyfarfodydd y Pwyllgorau Trosolwg a Chraffu ac yn siarad pan gânt eu gwahodd i wneud hynny, gan ateb cwestiynau gan aelodau'r pwyllgorau. Mae hyn yn gyfle i'r swyddogaeth trosolwg a chraffu ddwyn aelodau'r Cabinet i gyfrif. Mae'r achos proffil uchel a nodwyd uchod, sy'n ymwneud â chau cartref preswyl, yn enghraifft dda. Enghraifft arall yw'r her a wynebwyd gan y Cabinet mewn perthynas â newidiadau i'r polisïau ar archifau: roedd hyn yn cynnwys ymweliad â'r Gwasanaeth Archifau yn Aberystwyth. Hefyd, gofynnir i aelodau'r Cabinet roi tystiolaeth i grwpiau gorchwyl a gorffen craffu pan fo angen. Un enghraifft o hyn yw lle y sefydlodd Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Cymunedau Iachach grŵp gorchwyl a gorffen i edrych ar dipio anghyfreithlon. Gofynnwyd i aelod arweiniol y Cabinet fynd i un o'i gyfarfodydd er mwyn cyflwyno tystiolaeth ac ateb cwestiynau gan y grŵp.

14 Gall cynghorwyr hefyd fynd i gyfarfodydd y Cabinet ac o dan gyfansoddiad y Cyngor caniateir iddynt ofyn cwestiynau i aelodau'r Cabinet. Mae hyn yn rhoi cyfle ychwanegol i ddwyn y Cabinet fel cyfangorff i gyfrif am y penderfyniadau y mae'n eu gwneud.

15 Mae defnyddio'r adnodd Asesu Effaith Integredig yn sicrhau bod prosesau craffu a gwneud penderfyniadau'r Cyngor, yn enwedig mewn perthynas â materion o bwys sy'n ymwneud â pholisi a darparu gwasanaethau, yn llawer mwy effeithiol. Caiff yr Asesiad Effaith Integredig ei gwblhau a'i ystyried fel rhan o broses y Cyngor ar gyfer penderfynu ar bolisïau newydd, adolygu polisïau presennol neu gynnig lleihau neu derfynu gwasanaeth. Mae'r Asesiad Effaith Integredig yn helpu drwy sicrhau bod pob cynnig a phenderfyniad o bwys ynghylch polisi a darparu gwasanaethau yn rhoi ystyriaeth briodol i ofynion deddfwriaeth genedlaethol a chynlluniau lleol.

16 Fel rhan o'n gwaith, adolygwyd yr Asesiadau Effaith Integredig a luniwyd er mwyn llywio prosesau gwneud penderfyniadau'r Cyngor ynghylch cynigion ar gyfer gofal preswyl pobl hŷn a mabwysiadu'r Cynllun Llesiant. Mae'r Asesiadau Effaith Integredig yn asesu sut mae'r cynigion yn cydymffurfio â deddfwriaeth genedlaethol gan gynnwys y canlynol: Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, Deddf Cydraddoldeb 2010 a Mesur y Gymraeg 2011. Mae'r Asesiadau Effaith Integredig hefyd yn nodi sut mae'r cynigion yn cyd-fynd ag

amcanion strategol y Cyngor ac yn cyfrannu atynt. Mae'r ddau Asesiad Effaith Integredig wedi'u paratoi'n dda ac maent yn cynnwys amrywiaeth o dystiolaeth a gwaith dadansoddi er mwyn cefnogi'r cynnig a, lle y bo angen, gamau gweithredu i liniaru unrhyw effeithiau negyddol posibl. Mae'r Asesiadau Effaith Integredig wedi'u cymeradwyo gan aelod y Cabinet, y Cyfarwyddwr Strategol, Pennaeth y Gwasanaeth a Rheolwr y Gwasanaeth.

17 Mae'r Cyngor yn diweddaru ei drefniadau ar gyfer craffu ar waith Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Ceredigion ar ôl i'r Cynllun Llesiant Lleol gael ei fabwysiadu'n ddiweddar. O dan y trefniadau hyn, cyflwynir cofnodion cyfarfodydd y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus i'r Pwyllgor Trosolwg a Chydgysylltu. Caiff penderfyniadau ynghylch pa un o Bwyllgorau Trosolwg a Chraffu'r Cyngor a fydd yn craffu ar waith chwe Grŵp Prosiect y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus eu gwneud gan y Pwyllgor Trosolwg a Chydgysylltu ym mis Gorffennaf 2018. Bydd hyn yn digwydd ar ôl i Raglenni Gwaith y Grwpiau Prosiect gael eu hystyried. Mae'r Cyngor wedi sefydlu trefniadau ar gyfer craffu ar waith grwpiau partneriaeth rhanbarthol a lleol eraill megis Partneriaeth Gofal Gorllewin Cymru, ERW[1] a Bwrdd Rhanbarthol Diogelu Plant Canolbarth a Gorllewin Cymru.

18 Mae gan swyddogion a chynghorwyr ddealltwriaeth dda o'u rolau a'u cyfrifoldebau unigol a chyfunol yn y broses graffu. Mae'r 'Canllaw i Swyddogion' yn cynnwys gwybodaeth gynhwysfawr am yr hyn sy'n ofynnol gan swyddogion. Mae'n nodi meysydd megis terfynau amser ar gyfer cyflwyno adroddiadau i gyfarfodydd a datblygu Asesiadau Effaith Integredig er mwyn helpu cynghorwyr i wneud penderfyniadau. Mae'r 'Llawlyfr i Aelodau Pwyllgorau Trosolwg a Chraffu' yn cynnwys ystod dda o wybodaeth am sawl maes gan gynnwys pwysigrwydd gweithgarwch craffu i ychwanegu tryloywder, atebolrwydd a gwerth at broses gwneud penderfyniadau'r Cyngor.

19 Er bod llawlyfr o ansawdd da yn ddefnyddiol, mae effeithiolrwydd cynghorwyr ym mhroses graffu'r Cyngor yn dibynnu i raddau helaeth ar y cymorth a gânt gan y Swyddogion Cymorth Craffu. Roedd pob un o'r cynghorwyr y gwnaethom siarad â nhw yn uchel eu canmoliaeth o waith y Swyddogion Cymorth Craffu. O ystyried y pwysau cynyddol sydd ar ei adnoddau, a'r ffaith bod angen iddo sicrhau ei fod yn barod at y dyfodol, dylai'r Cyngor ystyried y math o gymorth sydd ei angen ar gyfer ei weithgarwch craffu a faint o gymorth sydd ei angen.

20 Mae amrywiaeth a chwmpas yr hyfforddiant a roddir i gynghorwyr gan Bennaeth y Gwasanaethau Democrataidd a'r Swyddogion Cymorth Craffu yn dda. Roedd hyfforddiant yn 2017 yn cynnwys sesiynau i holl aelodau'r pwyllgorau craffu mewn nifer o feysydd gan gynnwys Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 a Diogelu. Darparwyd hyfforddiant ar sgiliau cadeirio i Gadeiryddion ac Is-

[1] Mae ERW yn gynghrair rhanbarthol sy'n cynnwys Cyngor Sir Ceredigion, Cyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot, Cyngor Sir Powys, Cyngor Sir Penfro, Cyngor Dinas Abertawe a Chyngor Sir Caerfyrddin. Nod y cynghrair yw cydweithio er mwyn sicrhau'r canlyniadau gorau i bob dysgwr yn y chwe chyngor.

gadeiryddion y Pwyllgorau Trosolwg a Chraffu hefyd. A chafodd Cadeirydd ac Is-gadeirydd y Pwyllgor Cydgysylltu Trosolwg a Chraffu hyfforddiant ar eu rolau i graffu ar waith Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Ceredigion. Cafwyd presenoldeb da iawn yn y sesiynau hyfforddiant.

21 Dangosodd arolwg diweddar o hyfforddiant cynghorwyr, a oedd yn myfyrio ar sesiynau hyfforddiant a gynhaliwyd rhwng mis Mai a mis Tachwedd 2017, fod lefel uchel o foddhad â'r ffordd y cyflwynwyd y sesiynau, gwybodaeth yr hyfforddwr a chynnwys a phriodoldeb yr hyfforddiant.

## Mae blaenraglenni gwaith pwyllgorau craffu yn cynnwys materion priodol, gellid gwneud mwy i ymestyn yr ystod o ddulliau craffu a ddefnyddir ymhellach a sicrhau ei fod yn adolygu'r cynnydd sydd wedi'i wneud yn erbyn adroddiadau archwilio ac adroddiadau eraill gan gyrff rheoleiddio ac arolygu

22 Mae blaenraglenni gwaith y Pwyllgorau Trosolwg a Chraffu ar gael ar wefan y Cyngor. Wrth ystyried eitemau i'w cynnwys yn y blaenraglenni gwaith, mae aelodau'r Pwyllgorau Trosolwg a Chraffu yn cael gwybodaeth o sawl ffynhonnell, gan gynnwys y canlynol: y Strategaeth Gorfforaethol, y Cynllun Gwella, Cynlluniau Gwasanaeth, y Gofrestr Risg Gorfforaethol, Cynlluniau Arbedion a'r Bwrdd Perfformiad. Mae Swyddogion Cymorth Craffu yn helpu i ddatblygu'r blaenraglenni gwaith ac yn gweithio gyda Chadeiryddion y Pwyllgorau Trosolwg a Chraffu er mwyn ymchwilio i bynciau i'w cynnwys, o bosibl. Trafodir y blaenraglenni gwaith ym mhob un o gyfarfodydd y Pwyllgorau Trosolwg a Chraffu a chaiff eitemau eu hychwanegu neu eu dileu fel y cytunir.

23 Mae blaenraglenni gwaith yn gryno ac maent yn cynnwys meysydd a phynciau sy'n berthnasol i bob un o'r Pwyllgorau Trosolwg a Chraffu. Fodd bynnag, mae angen datblygu'r rhain ymhellach er mwyn:

- darparu rhesymeg glir dros ddewis pynciau;
- canolbwyntio'n fwy ar ganlyniadau; a
- sicrhau y defnyddir y dull craffu mwyaf addas ar gyfer y maes pwnc a'r canlyniad dymunol.

24 Cytunodd y Cabinet ar drefniadau trawsnewid a pherfformiad diwygiedig ym mis Medi 2017. Y Bwrdd Perfformiad, sy'n cynnwys yr Arweinydd, y Prif Weithredwr a'r Pennaeth Perfformiad a Darbodusrwydd, sy'n gyfrifol am herio perfformiad y Cyngor. Disgwylir i Gadeiryddion ac Is-gadeiryddion y Pwyllgorau Trosolwg a Chraffu fynd i gyfarfodydd y Bwrdd Perfformiad er mwyn nodi materion ac ystyried eu cynnwys ar agendâu cyfarfodydd y Pwyllgorau Trosolwg a Chraffu yn y dyfodol. Nododd rhai o'r cynghorwyr y gwnaethom siarad â nhw fod presenoldeb Cadeiryddion ac Is-gadeiryddion y Pwyllgorau Trosolwg a Chraffu yng nghyfarfodydd y Bwrdd Perfformiad yn 'dameidiog'. Fodd bynnag, caiff yr aelodau eu hysbysu am faterion sy'n ymwneud â pherfformiad gwasanaethau am fod

papurau'r Bwrdd Perfformiad ac awgrymiadau/nodiadau gan swyddogion cymorth craffu yn cael eu hanfon atynt. Er nad oes yr un aelod o'r pwyllgorau wedi cymryd rhan yn y drafodaeth fwy cynhwysfawr ynghylch perfformiad, mae'r ffaith eu bod yn cael adroddiadau a nodiadau ar y prif bwyntiau yn golygu y gallant ystyried yr angen i gynnwys materion sy'n ymwneud â pherfformiad gwasanaethau ar agendâu'r pwyllgorau.

25 Gwnaethom hefyd adolygu trefniadau'r Cyngor ar gyfer adrodd ar y broses o weithredu argymhellion a chynigion ar gyfer gwella a oedd wedi'u cynnwys mewn tri adroddiad gan Swyddfa Archwilio Cymru a monitro'r broses honno[2]. Roedd anghysondebau o ran y ffordd y cafodd unrhyw weithgarwch a gyflawnwyd er mwyn gweithredu'r argymhellion a'r cynigion ar gyfer gwella a oedd wedi'u cynnwys yn yr adroddiadau ei fonitro fel rhan o drefniadau rheoli perfformiad y Cyngor. O dan y system bresennol ni all swyddogion na chynghorwyr gael dealltwriaeth glir o'r cynnydd sydd wedi'i wneud o ran gweithredu argymhellion yr adroddiadau nac asesu unrhyw welliannau o ran canlyniadau gwasanaethau sy'n deillio o hynny.

## Nid yw'r Cyngor wedi adolygu effeithiolrwydd ei swyddogaeth trosolwg a chraffu yn rheolaidd. Fodd bynnag, mae adolygiad bellach yn mynd rhagddo a fydd yn galluogi'r Cyngor i werthuso effaith gweithgarwch craffu a nodi lle y gallai wella

26 Yn y gorffennol mae'r Cyngor wedi llunio adroddiad blynyddol ar y swyddogaeth trosolwg a chraffu. Roedd y rhain yn debycach i restr o bynciau a drafodwyd yn hytrach nag asesiad o effaith gweithgarwch craffu. Roedd yr adroddiad diwethaf yn cwmpasu'r flwyddyn 2016-17.

27 Cynhaliwyd adolygiad o effeithiolrwydd y Pwyllgorau Trosolwg a Chraffu gan y Swyddog Craffu a Safonau yn 2011. Hefyd, cynhaliodd y Cyngor hunanasesiad o effeithiolrwydd ei drefniadau craffu yn 2013 fel rhan o'n Hastudiaeth Wella Genedlaethol **Craffu Da? Cwestiwn Da!**. Ar y cyfan, roedd canlyniadau'r hunanasesiad, gan gynnwys barn y tîm cyfnewid dysgu, yn gadarnhaol. Yn dilyn yr adolygiad cychwynnol yn 2011 ailstrwythurodd y Cyngor ei bwyllgorau Trosolwg a Chraffu, gan leihau nifer y pwyllgorau o chwech i bump, gan gynnwys un pwyllgor cydgysylltu. Mae'r pwyllgor hwn ynghyd â'i swyddogaeth gydgysylltu hefyd yn craffu ar y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus.

2

1. Archwilydd Cyffredinol Cymru, **Craffu Da? Cwestiwn Da!**, Mai 2014
2. Archwilydd Cyffredinol Cymru, **Cyflawni â Llai - Yr Effaith ar Wasanaethau Iechyd yr Amgylchedd a Dinasyddion**, Hydref 2014
3. Archwilydd Cyffredinol Cymru, **Review of the Council's Approach to Communicating and Engaging with Citizens**, Cyngor Sir Ceredigion, Rhagfyr 2015

28 Nid oes yr un adolygiad arall o drefniadau craffu'r Cyngor wedi'i gynnal ers 2013. Fodd bynnag, cytunodd cyfarfod y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd, a gynhaliwyd ym mis Chwefror 2018, y cynhelir hunanasesiad o'r swyddogaeth trosolwg a chraffu yn ystod 2018 a bob blwyddyn ar ôl hynny. Mae'r hunanasesiad hwn yn mynd rhagddo, ac mae'n ystyried effaith/canlyniadau gweithgarwch craffu, yn ogystal â myfyrio ar nodweddion gwaith craffu da gan ddefnyddio ein Hastudiaeth Wella Genedlaethol flaenorol **Craffu Da? Cwestiwn Da!** fel canllaw.

# Atodiad 1

## Canlyniadau a nodweddion trefniadau trosolwg a chraffu effeithiol i lywodraeth leol

Arddangosyn 2: canlyniadau a nodweddion trefniadau trosolwg a chraffu effeithiol i lywodraeth leol

| Canlyniadau | Nodweddion |
|---|---|
| **Beth mae trefniadau craffu da yn ceisio ei gyflawni?** | **Beth fyddai eu nodweddion? Sut y gallem eu hadnabod?** |
| **1. Mae atebolrwydd democrataidd yn ysgogi gwelliant mewn gwasanaethau cyhoeddus.**<br>**'Gwell Gwasanaethau'** | **Amgylchedd**<br>i) Mae gan graffu rôl benodol a gwerthfawr o fewn trefniadau gwella'r cyngor.<br>ii) Mae'r swyddogaeth graffu yn cael y cymorth sydd ei angen arni gan swyddogion sy'n gallu cynnal gwaith ymchwil annibynnol yn effeithiol, ac mae'n rhoi dadansoddiadau, cyngor a hyfforddiant o ansawdd uchel i aelodau pwyllgorau craffu.<br><br>**Arfer**<br>iii) Mae ymchwiliadau'r swyddogaeth Trosolwg a Chraffu yn anwleidyddol, yn fethodolegol gadarn ac yn cynnwys amrywiaeth eang o dystiolaeth a safbwyntiau.<br><br>**Effaith**<br>iv) Mae'r swyddogaeth trosolwg a chraffu yn herio gwneuthurwyr penderfyniadau a darparwyr gwasanaethau yn rheolaidd ar sail tystiolaeth.<br>v) Mae'r swyddogaeth graffu yn darparu atebion ymarferol yn seiliedig ar dystiolaeth gadarn i broblemau cydnabyddedig. |

| Canlyniadau | Nodweddion |
|---|---|
| **Beth mae trefniadau craffu da yn ceisio ei gyflawni?** | **Beth fyddai eu nodweddion? Sut y gallem eu hadnabod?** |
| **2. Mae'r broses o wneud penderfyniadau democrataidd yn atebol, yn gynhwysol ac yn gadarn.**<br>**'Gwell penderfyniadau'** | **Amgylchedd**<br>i) Mae cynghorwyr craffu yn cael y cyfleoedd hyfforddi a datblygu sydd eu hangen arnynt i ymgymryd â'u rôl yn effeithiol.<br>ii) Mae'r broses yn cael cymorth effeithiol gan Dîm Rheoli Corfforaethol y Cyngor sy'n sicrhau bod y wybodaeth a roddir i'r swyddogaeth graffu o ansawdd uchel ac y caiff ei darparu mewn modd amserol a chyson.<br><br>**Arfer**<br>iii) Caiff y swyddogaeth graffu ei harwain gan Aelodau, ceir 'perchenogaeth' o'i rhaglen waith, mae'n ystyried safbwyntiau'r cyhoedd, partneriaid a rheoleiddwyr, ac yn cydbwyso'r broses o flaenoriaethu pryderon y gymuned yn erbyn materion lle ceir risg strategol a materion o bwysigrwydd strategol.<br>iv) Mae gan randdeiliaid y gallu i gyfrannu at y broses o ddatblygu a chyflawni blaenraglenni gwaith craffu.<br>v) Caiff cyfarfodydd a gweithgareddau'r swyddogaeth trosolwg a chraffu eu cynllunio'n dda, eu cadeirio'n effeithiol ac maent yn gwneud y defnydd gorau o'r adnoddau sydd ar gael.<br><br>**Effaith**<br>vi) Mae Aelodau anweithredol yn cadw cydbwysedd o ran penderfyniadau Gweithredol yn seiliedig ar dystiolaeth.<br>vii) Mae gwneuthurwyr penderfyniadau yn sicrhau eu bod yn atebol i'r cyhoedd mewn perthynas â'u cyfrifoldebau portffolio mewn pwyllgorau craffu. |
| **3. Mae'r cyhoedd yn cymryd rhan mewn trafodaeth ddemocrataidd ynglŷn â darparu gwasanaethau cyhoeddus nawr ac yn y dyfodol.** | **Amgylchedd**<br>i) Mae'r Weithrediaeth a'r tîm Rheoli Corfforaethol yn cydnabod y swyddogaeth graffu fel un o systemau pwysig y cyngor ar gyfer ymgysylltu â'r gymuned.<br><br>**Arfer**<br>ii) Nodweddir y swyddogaeth graffu gan drefniadau cyfathrebu effeithiol er mwyn codi ymwybyddiaeth o atebolrwydd democrataidd ac annog cyfranogiad.<br>iii) Mae'r swyddogaeth graffu yn gweithredu mewn modd anwleidyddol ac yn ymdrin yn effeithiol â thensiwn, gwrthdaro a materion gwleidyddol sensitif.<br>iv) Mae'r swyddogaeth graffu yn meithrin ymddiriedaeth a chydberthnasau da ag amrywiaeth eang o randdeiliaid mewnol ac allanol.<br><br>**Effaith**<br>v) Mae'r swyddogaeth trosolwg a chraffu yn galluogi pobl leol a chymunedau ledled yr ardal i leisio barn fel rhan o'r prosesau gwneud penderfyniadau a llunio polisïau. |

# Atodiad 2

## Argymhellion o adroddiad astudiaeth wella genedlaethol yr Archwilydd Cyffredinol ‘Craffu Da? Cwestiwn Da!’ (Mai 2014)

Arddangosyn 3: argymhellion o **Craffu Da? Cwestiwn Da!** Astudiaeth Wella'r Broses Graffu

| Argymhelliad | | Partneriaid Cyfrifol |
|---|---|---|
| A1 | Egluro rôl aelodau gweithredol ac uwch swyddogion wrth gyfrannu at y broses graffu. | Cynghorau, Llywodraeth Cymru, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru |
| A2 | Sicrhau bod aelodau craffu, ac yn benodol cadeiryddion craffu, yn cael hyfforddiant a chymorth er mwyn sicrhau eu bod yn meddu ar yr holl sgiliau sydd eu hangen i gynnal gwaith craffu effeithiol. | Cynghorau, Llywodraeth Cymru, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru |
| A3 | Datblygu prosesau blaenraglennu craffu ymhellach er mwyn:<br>• darparu rhesymeg glir dros ddewis pynciau;<br>• canolbwyntio'n fwy ar ganlyniadau;<br>• sicrhau y defnyddir y dull craffu mwyaf addas ar gyfer y maes pwnc a'r canlyniad dymunol; a<br>• chysoni rhaglenni craffu â threfniadau rheoli perfformiad, hunanwerthuso a gwella'r cyngor. | Cynghorau |
| A4 | Sicrhau bod gwaith craffu yn defnyddio gwaith archwilio, arolygu a rheoleiddio yn effeithiol a bod ei weithgareddau yn ategu gwaith cyrff adolygu allanol. | Cynghorau, Staff Swyddfa Archwilio Cymru, AGGCC, Estyn |
| A5 | Sicrhau bod cyrff adolygu allanol yn ystyried rhaglenni gwaith craffu ac allbynnau gweithgareddau craffu, lle y bo'n briodol, wrth gynllunio a chyflawni eu gwaith. | Staff Swyddfa Archwilio Cymru, AGGCC, Estyn |

| Argymhelliad | | Partneriaid Cyfrifol |
|---|---|---|
| A6 | Sicrhau y caiff effaith craffu ei gwerthuso'n briodol ac y gweithredir arni er mwyn gwella effeithiolrwydd y swyddogaeth; gan gynnwys gwneud gwaith dilynol ar gamau gweithredu arfaethedig ac archwilio canlyniadau. | Cynghorau, Llywodraeth Cymru, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru |
| A7 | Cynnal hunanwerthusiadau rheolaidd o drefniadau craffu gan ddefnyddio 'canlyniadau a nodweddion trefniadau trosolwg a chraffu effeithiol i lywodraeth leol' a ddatblygwyd gan Rwydwaith Swyddogion Trosolwg a Chraffu Cymru. | Cyngor |
| A8 | Rhoi cynlluniau gweithredu ar gyfer gwella craffu ar waith yn seiliedig ar astudiaeth wella Swyddfa Archwilio Cymru. | Cynghorau |
| A9 | Mabwysiadu 10 Egwyddor Cyfranogaeth Cymru ar gyfer Ymgysylltu â'r Cyhoedd wrth wella'r ffordd y mae'r swyddogaeth graffu yn ymgysylltu â'r cyhoedd a rhanddeiliaid. | Cynghorau |

Wales Audit Office
24 Cathedral Road
Cardiff CF11 9LJ

Tel: 029 2032 0500
Fax: 029 2032 0600
Textphone: 029 2032 0660

E-bost: info@audit.wales
Website: www.audit.wales

Swyddfa Archwilio Cymru
24 Heol y Gadeirlan
Caerdydd CF11 9LJ

Ffôn: 029 2032 0500
Ffacs: 029 2032 0600
Ffôn testun: 029 2032 0660

E-bost: post@archwilio.cymru
Gwefan: www.archwilio.cymru